Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 293

**Amseru:** Rheolaidd

**Teitl: Parhau i ariannu prosiect Tai Rheoli Troseddwyr yn Integredig**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Fel y nodwyd yng nghofnod penderfyniad 209, mae CHTh wedi addo rhoi £10,000 tuag at brosiect sy’n cyflenwi uned Llety Brys Dros Dro tymor byr ar gyfer lleoli cleientiaid Rheoli Troseddwyr yn Integredig hyd nes y bydd datrysiadau amgen mwy addas a thymor hir yn cael eu canfod.

Adroddodd y prosiect ganlyniadau llwyddiannus wrth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn 2022, ac mae’r cyllid gwreiddiol wedi galluogi’r prosiect i fynd rhagddo am 2 flynedd. Mae’r prosiect wedi sefydlu 2 eiddo i’w defnyddio ac mae’n galluogi cleientiaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Derbyniwyd arian gan Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Fawrhydi i gyflwyno’r prosiect mewn ardaloedd eraill yn Nyfed-Powys fel arfer gorau. Mae angen £7,000 ar brosiect Ceredigion er mwyn sicrhau parhad.

Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo’r swm o £7,000 o’r tanwariant yng nghyllid Comisiynu CHTh i barhau â phrosiect Ceredigion.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Argymhelliad:**

Bod CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £7000 ar gyfer y prosiect tai Rheoli Troseddwyr yn Integredig.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad:** 14/2/2023